Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 10-05-22 – 7.30pm**

**Cyfarfod yn Neuadd y Pentref**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Wendy Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Geraint Owen, Arthur Williams, Gwyn Jones, John Lloyd Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Gwilym Williams, Ceri Leeder, Gwenan Roberts ac Austin Roberts |

1. **CROESO**

   **Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.**

2. **YMDDIHEURIADAU**

   **Noder uchod.**

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   - Cyng Gwyn - Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (05/04/22).

   Cynigwyd cofnodion 05/04/22 yn gywir gan Cyng John Lloyd ac eiliwyd gan Cyng Arthur.

   **Newid i'r cofnodion**: Cofnodion Cymraeg – darn heb ei gyfieithu yn y cofnodion.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Ethol Swyddogion (Cadeirydd ac Is Gadeirydd):**

     Cyng Wendy yn derbyn swydd y Cadeirydd. Penderfynwyd gohirio ethol Is-Gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

   - **Enwebu cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eglwys Bach a Neuadd y Pentref:**

     Cyng Gwyn yn cynnig Cyng John Emlyn i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar fwrdd llywodraethol Ysgol Eglwys Bach. Cyng John Emlyn yn derbyn. Cyng John Emlyn yn cynnig Cyng Ceri i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar fwrdd llywodraethol neuadd y pentref. Penderfynwyd gohirio tan y cyfarfod nesaf oherwydd bod Cyng Ceri ddim yn bresennol.

- **Rheoliadau Ariannol:**

  Angen diweddaru'r rheoliadau – gohirio tan y cyfarfod nesaf.

  **Rheolau Sefydlog:**

  Angen diweddaru'r rheoliadau – gohirio tan y cyfarfod nesaf.

- **Cyfarfod Blynyddol:**

  Angen cynnal cyfarfod blynyddo cyfarfod mis Mehefin.

- **Rhwydwaith ffeibr yn y neuadd:**

  Angen router a soced ychwanegol yn y neuadd.

- **Toiledau'r Pentref:**

  Y Clerc wedi gyrru e-bost at CBSC i ofyn am gyfradd cyflog. Y Clerc i greu hysbyseb am y swydd.

- **Mynwent yr Eglwys/Cyngor ac Asesiad Risg:**

  Rhannwyd neges gan Cyng Ceri o ran y fynwent: 'Rwyf wedi anfon y ffurflenni cyn ymgeisio ac rwy'n aros am eu dyfarniad.'

  **Asesiad Risg:**
  Cyng John Emlyn wedi gyrru yr asesiad risg i'r holl gynghorwyr. Y Clerc i drefnu gyda CBSC i gael archwiliad o'r cerrig beddi. Cyng John Lloyd yn cynnig derbyn yr asesiad risg. Cyng Geraint yn eilio, yr holl gynghorwyr yn cytuno. Diolchodd y Cadeirydd i Cyng John Emlyn a Cyng John Lloyd am eu gwaith.

- **Jiwbilî Platinwm y Frenhines:**

  Rhannwyd llythyr gan Tania Forrester ynglyn â'r jiwbilî a'r dathliad hoffai'r ysgol ei gynnal ar ei gyfer.

  Cynigodd Cyng John Lloyd £250. Cyng Arthur yn eilio. Yr holl gynghorwyr yn cytuno.

  **Cynnal meinciau yn y gymuned:**

  Mainc wrth yr Efail – angen ei baentio.
  Mainc Ffordd Bryn Hir – wedi malu, angen cysylltu a Dave a Chris am y fainc.
  Mainc i gofio am Gwyn i'w roi wrth yr hysbysfwrdd. Cyng Gwyn i gael gair efo Bodnant ynglyn â coed i wneud mainc.
  Y Clerc i gysylltu â CBSC i weld os oes ganddynt wasanaeth trwsio meinciau.

- **Postio eitemau ar dudalen Facebook:**

  Eitem agenda cyfarfod nesaf.

- **Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy (ychwanegiad i'r agenda):**

  Eitem agenda cyfarfod nesaf.

- **Awdit 20/21:**

  Y Clerc yn gweithio gyda'r Swydda Archwilio i orffen yr awdit.

6. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/49628**
  Ymgeisydd: Mr Chris Roberts
  Cynllun: Estyniad ail lawr i lawr gwaelod presennol i ffurfio prif ystafell wely newydd ac ensuite
  Safle: Pen Y Bont, Eglwysbach Road,

  Dyddiad cau: 27/05/22

  Dim sylwadau anffafriol.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £8,422.54
Angladdau - £1,087.60
Cadw - £2,078.41

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Ysgol Eglwys Bach (Jiwbilî Platinwm y Frenhines) - £250.00

**Angladdau:**
- Arwel Williams - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Chwarae Allan Haf 2022:**
  Er Gwybodaeth. Angen ei hysbysebu i weld os oes diddordeb yn y pentref. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda CBSC a cael rhagor o wybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - CYHOEDDI: Grantiau LEADER i Fusnesau a Cymunedau Conwy Wledig:**
  Er Gwybodaeth.

- **E-bost: CBSC - Newyddlen Gwanwyn - Gwasanaeth Ieuenctid Conwy:**
  Er Gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Etholiadau Llywodraeth Leol - gwybodaeth bellach:**
  Er Gwybodaeth.  Y Cynghorwyr i lenwi'r ffurflen i mewn.

- **E-Bost: CBSC - Cronfa cefnogi busnesau Conwy wledig:**
  Er Gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cynghorydd Cymuned/Tref ar gyfer Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau:**
  Er Gwybodaeth.

- **E-Bost: Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy – Diolch:**
  Er Gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Giat i'r cae wedi mynd o gefn y neuadd.  Angen edrych ar yr yswiriant;
- Angen llenwi cofrestr cysylltiadau aelodau yn y cyfarfod nesaf;
- Angen bin du neu frown ychwanegol i'r fynwent – cysylltu gyda CBSC;
- Clawdd o amgylch y fynwent wedi tyfu.  Angen gofyn i Arwel am bris i'w dorri;
- Ffordd Gyffylog cyn Ty Ucha/Pen y Bryn – clawdd wedi tyfu i'r ffordd;
- Llwybyr rhwng Foel i Pen Mynydd wedi cau.  Amryw o drigolion wedi codi'r peth.  CBSC yn dweud nad oes ganddynt yr adnoddau i glirio;
- Arwydd hysbysebu'r Hayloft wrth Ffordd Ty Gwyn – angen cysylltu gyda Cynllunio CBSC i weld os oes ganddo ganiatad;
- Angen tynnu y rhwydau i lawr yn y cae chwarae ar ôl bob gem – y Clerc i gysylltu gyda Karen Martin.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 o'r gloch.